

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11

Mai 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11

Mai 2012



Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gan roi iddo'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys gofal cymdeithasol ar eu cyfer.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman
(Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Angela Burns
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Jocelyn Davies
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Keith Davies
Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie Morgan
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Lynne Neagle
Llafur Cymru
Tor-faen



Jenny Rathbone
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Aled Roberts
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	7
2. Sgiliau a dysgwyr	8
Llythrennedd	8
Safonau llythrennedd.....	8
Ymgorffori llythrennedd	9
Methodolegau addysgu llythrennedd	9
Rhifedd	10
Safonau rhifedd.....	10
Ymgorffori rhifedd	11
Olrhain cynnydd mewn rhifedd	11
Y Fframwaith Sgiliau	12
Cymraeg fel ail iaith.....	13
Safonau.....	13
Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg	14
Anghenion dysgwyr unigol.....	15
Y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched.....	15
Disgyblion mwy galluog a thalentog	16
Dysgwyr sydd dan anfantais.....	17
Y Cyfnod Sylfaen	17
Ymgysylltu â'r gymuned	17
Ymgysylltu â rhieni.....	19
Presenoldeb	20
Plant Sipsiwn a Theithwyr	21
3. Perfformiad a safonau	23
Disgyblion	23
Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3.....	23
Cyfnod Allweddol 4	23
Athrawon	23

Safonau addysgu a rheoli perfformiad.....	23
Cymhwyster Meistr i athrawon sydd newydd gymhwyso	25
Arweiniad	25
Penaethiaid.....	26
Llywodraethwyr ysgolion.....	26
Awdurdodau addysg lleol.....	27
Consortia rhanbarthol.....	29
4. Fframwaith arolygu	31
Fframwaith arolygu diwygiedig	31
Cyfnodau rhybudd arolygiadau	31
Lles a diogelu rhag yr haul.....	32
Safbwyntiau disgyblion a rhieni.....	33
Atodiad A - Tystion	34
Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig.....	35

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

Argymhelliad 1. Wrth ddatblygu asesiadau darllen blynyddol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cyfnodau Allweddol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys elfen o asesu allanol neu safoni. **(Tudalen 8)**

Argymhelliad 2. Dylai awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion rannu gwybodaeth am lefelau rhifedd disgyblion yn effeithiol yn ystod y cyfnod pontio rhwng Cyfnodau Allweddol a sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn cael ei darparu os oes angen. **(Tudalen 12)**

Argymhelliad 3. Dylai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol newydd gynnwys canllawiau ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion ar sicrhau bod addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd, a chyfleoedd i'w hymarfer, yn cael ei ymgorffori ar draws y cwricwlwm ac ym mhob Cyfnod Allweddol, a dylai hwyluso rhannu arfer gorau o ran ymgorffori llythrennedd a rhifedd. **(Tudalen 12)**

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg ffurfiol. **(Tudalen 14)**

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion er mwyn dal i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, ac annog athrawon i fanteisio arnynt, er mwyn cynyddu hyder wrth ddefnyddio ac addysgu Cymraeg. **(Tudalen 15)**

Argymhelliad 6. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu a rhannu'r arferion gorau ar ymgysylltu â'r gymuned a'r rhieni, yn enwedig yng nghyswllt cefnogi dysgwyr sy'n profi tloidi neu sydd o dan anfantais, a gwerthuso'r effaith ar safonau ac ar ganlyniadau disgyblion. **(Tudalen 19)**

Argymhelliad 7. Dylai Estyn hwyluso'r broses o rannu'r arferion gorau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion wrth wella cyfraddau presenoldeb. **(Tudalen 21)**

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddyrannu'r grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr, ystyried anghenion penodol plant mewn gwahanol Gyfnodau Allweddol, a dylai bwysoli ei ddsbarthiad yn unol â hynny. **(Tudalen 22)**

Argymhelliad 9. Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli perfformiad athrawon annog hunanwerthuso a gwerthuso gan gymheiriaid fel trefniadau ar gyfer datblygu gallu athrawon a gwella cysondeb safonau mewn ysgolion. **(Tudalen 25)**

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn er mwyn datblygu a darparu hyfforddiant effeithiol i lywodraethwyr ysgolion, sy'n canolbwyntio ar arwain, herio, cefnogi a dadansoddi a defnyddio data. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu a darparu hyfforddiant i arweinwyr cabinet addysg a chadeiryddion pwyllgorau craffu ar addysg, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio data'n effeithiol a chraffu cadarn. **(Tudalen 28)**

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ac Estyn sicrhau bod y gwaith o graffu ar y consortia rhanbarthol yn ddigon cadarn, a bod trefniadau newydd yn gwella safonau a chanlyniadau disgyblion heb gyflwyno cymhlethdod diangen. **(Tudalen 30)**

Argymhelliad 13. Dylai Estyn ymgynghori ynglŷn â'r angen i arolygu pob ysgol cyn pen chwe blynedd o'i harolygiad blaenorol ac ynglŷn â'r cyfnod o rybudd sydd ei angen cyn arolygiadau, gyda'r bwriad o alluogi arolygiadau dirybudd lle bo'n briodol. **(Tudalen 32)**

Argymhelliad 14. Dylai Estyn gynnwys, yn elfen Les ei fframwaith arolygu ac yn ei ganllawiau i'w arolygwyr, yr angen i ystyried a oes gan ysgolion bolisiâu ar eu dulliau o ddiogelu rhag ystod o ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys yr haul. **(Tudalen 33)**

1. Cyflwyniad

1. Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu Estyn, ond mae'n annibynnol arni.
2. Cyhoeddodd Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("yr Arolygydd") *Adroddiad Blynyddol 2010-11* ("yr *Adroddiad Blynyddol*") ar 31 Ionawr 2012. Roedd wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth o arolygiadau a gwblhawyd yn ystod 2010-11, ond roedd hefyd yn darparu gwybodaeth o arolygon ac adroddiadau eraill a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.
3. Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2012, cydnabu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau fod angen gwneud rhagor o waith mewn nifer o feysydd, a dywedodd fod yr *Adroddiad Blynyddol* yn dangos bod y system addysg yng Nghymru yn "system weddol sy'n anelu i fod yn dda".¹
4. Ar 29 Mawrth 2012, aeth yr Arolygydd, ynghyd â Simon Brown a Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwyr Strategol Estyn, i gyfarfod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i roi tystiolaeth ar y materion hynny a godwyd yn yr *Adroddiad Blynyddol* a oedd yn rhan o faes gwaith y Pwyllgor.
5. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif themâu a ystyriwyd gan y Pwyllgor, ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â meysydd lle mae angen rhagor o waith.
6. Bwriada'r Pwyllgor graffu ar adroddiadau blynyddol yr Arolygydd bob blwyddyn. Yn ychwanegol at hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau o bryd i'w gilydd gan yr Arolygydd ar ganfyddiadau ei hadroddiadau cylch gwaith.

¹ Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2012, Y Cyfarfod Llawn

2. Sgiliau a dysgwyr

Llythrennedd

Safonau llythrennedd

7. Roedd y Pwyllgor yn gresynu bod gan nifer uchel o'r plant sy'n mynd i Gyfnod Allweddol 3 oed darllen is na'u hoed cronolegol. Dangosodd arolwg gan Estyn o tua 50 o ysgolion uwchradd fod gan 80 y cant o'r disgyblion oed darllen is na'u hoed cronolegol, a bod gan tua 20 y cant oed darllen is na'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol fel dangosydd llythrennedd gweithredol.² Ar y llaw arall, dangosodd asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mai dim ond 17 y cant oedd heb gyrraedd y lefelau disgwyliedig mewn darllen.³ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor mai canlyniad methodolegau asesu gwahanol oedd yr amrywiant hwn. Nid oedd wedi ei hargyhoeddi ynglŷn â dibynadwyedd asesiadau'r athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, gan nad oedd eu canlyniadau'n gyson â'r gwaith a wnaethpwyd gan Estyn wrth arsylwi ar ddysgu ac addysgu mewn dosbarthiadau, craffu ar waith disgyblion, a siarad yn uniongyrchol â disgyblion.⁴

8. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen dull asesu cyson er mwyn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, a bu'n ystyried a oedd angen elfen o asesu allanol neu safoni, o bosibl i gael ei gynnal gan awdurdodau lleol.⁵ Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2012, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer profion darllen blynyddol a fyddai'n cyflwyno dulliau cyson ar gyfer pob ysgol gynradd.⁶ Dywedodd yr Arolygydd ei bod yn bwriadu adrodd ar yr asesiadau hyn y flwyddyn nesaf.⁷

Argymhelliad: Wrth ddatblygu asesiadau darllen blynyddol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cyfnodau Allweddol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys elfen o asesu allanol neu safoni.

² Yn cael ei ddiffinio yn yr *Adroddiad Blynyddol* fel naw mlwydd a chwe mis.

³ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁴ Cofnod y Trafodion [para 36], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁵ Ibid [para 37]

⁶ Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2012, Y Cyfarfod Llawn

⁷ Cofnod y Trafodion [para 96], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Ymgorffori llythrennedd

9. Roedd yr *Adroddiad Blynyddol* yn tynnu sylw at bryder ynglŷn â safon gwaith ysgrifenedig disgyblion mewn bron i chwarter y lleoliadau Cyfnod Sylfaen, ac yn dweud nad oedd digon o addysgu darllen ac ysgrifennu'n uniongyrchol yn y lleoliadau hyn.⁸ Yn fwyaf arbennig, nid oedd digon o gyfleoedd i ymarfer darllen mewn sefyllfaoedd awyr agored.⁹ Clywodd y Pwyllgor gan yr Arolygydd fod cydbwysedd da o ran addysgu sgiliau yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen, ac y gallai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd helpu i fynd i'r afael â'i phryder ynglŷn â'r ysgolion hynny lle'r oedd angen gwelliant.¹⁰

10. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod addysgu sgiliau llythrennedd sylfaenol yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn hanfodol i ddatblygiad parhaus disgyblion a'u gallu i ymgysylltu â'r cwricwlwm ehangach, ond roedd yn cydnabod bod yn rhaid cadw'r cynnydd yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn mae angen cael dull gweithredu cyson a systematig drwy gydol addysg disgybl, rheoli'r trefniadau pontio rhwng haenau o addysg, ac ymgorffori llythrennedd sylfaenol ar draws y cwricwlwm cyfan ac mewn gweithgareddau allgwrwiclaidd. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor:

“we are trying to normalise the process of reading across the whole curriculum so that all teachers are teachers of literacy, and that is being reinforced all the time.”¹¹

Methodolegau addysgu llythrennedd

11. Trafododd y Pwyllgor rai o'r methodolegau addysgu ar gyfer sgiliau llythrennedd sylfaenol gyda'r Arolygydd. Nid yw Estyn yn argymhell unrhyw fethodoleg benodol, ond roedd yr Arolygydd yn bendant y dylid cynnwys o leiaf ryw elfen o ffoneg mewn unrhyw fframwaith llythrennedd ehangach.¹² Y ffactor allweddol a oedd yn dylanwadu ar lwyddiant unrhyw fethodoleg benodol oedd ymgysylltu â'r rhieni a'u cynnwys. Cyfeiriodd yr Arolygydd at astudiaeth hydredol yn Llundain, a oedd wedi darganfod bod cefndir cymdeithasol-economaidd y disgyblion yn cael llai o effaith ar lefelau llythrennedd

⁸ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁹ Cofnod y Trafodion [para 113], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹⁰ Ibid [para 94]

¹¹ Ibid [para 113]

¹² Ibid [para 109]

na lefel ymgysylltu eu rhieni. Roedd ymarfer yn bwysig, ond yn ychwanegol at hynny, roedd angen i rieni ddeall ac ymgysylltu â'r dull a oedd yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol er mwyn datblygu llythrennedd eu plant.¹³

Rhifedd

Safonau rhifedd

12. Ym mis Gorffennaf 2011 cyhoeddodd yr Arolygydd adroddiad cylch gwaith dan y teitl *Rhifedd ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed*. Yn yr adroddiad hwnnw, dywedodd fod canlyniadau TGAU a chymariaethau rhyngwladol yn dangos bod perfformiad rhifedd yn is yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Roedd safonau rhifedd yn is na'r rhai hynny mewn Saesneg, Cymraeg, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac nid oedd rhifedd wedi ei ymgorffori'n ddigonol ar draws y cwricwlwm.¹⁴

13. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod safonau yng Nghymru, mewn rhifedd a mathemateg, yn gryfach yng Nghyfnod Allweddol 2 nag yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd y diffygion, gan gynnwys methu â galw ffeithiau rhif sylfaenol i gof a diffyg strategaethau effeithiol ar gyfer cyfrifiadau meddyliol neu ysgrifenedig, yn codi oherwydd prinder amser a chyfleoedd i ddatblygu, ymarfer, a chymhwyso sgiliau rhif sylfaenol yng Nghyfnod Allweddol 2, a dim digon o bwyslais ar addysgu strategaethau rhifedd effeithiol a sgiliau trosglwyddadwy yng Nghyfnod Allweddol 3.¹⁵

14. Ar ben hyn, er bod nifer y cymwysterau cymhwyso rhif a gafwyd wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd flaenorol, roedd y cymwysterau a enillwyd yn aml ar lefel rhy isel o'i chymharu â gallu'r disgyblion.¹⁶ O ganlyniad, nid oedd dysgwyr yn cael eu hymestyn na'u herio, a gallai

¹³ Cofnod y Trafodion [para 100], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹⁴ Estyn, *Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed*, Gorffennaf 2011

¹⁵ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

¹⁶ Estyn, *Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed*, Gorffennaf 2011

hynny gael effaith ar eu hysgogiad i weithio. Nid oedd eu safonau rhifedd unigol yn cael eu gwella ychwaith.¹⁷

Ymgorffori rhifedd

15. Holodd y Pwyllgor yr Arolygydd ynglŷn â'r arferion gorau wrth addysgu rhifedd, ar lefel sylfaenol ac uwch, drwy'r system addysg, a chlywsom fod safonau rhifedd mewn ysgolion cynradd yn uwch at ei gilydd a bod disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'u sgiliau rhifedd. Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd strategaethau cydgysylltiedig eto ar gyfer datblygu ac ymgorffori sgiliau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, er bod nifer wedi penodi cydgysylltwyr i ddechrau'r broses hon. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor nad oedd y cynlluniau hyn, yn y rhan fwyaf o ysgolion, wedi datblygu digon eto i gael effaith ar safonau sgiliau rhifedd.¹⁸

Olrhain cynnydd mewn rhifedd

16. Roedd adroddiad cylch gwaith Estyn yn nodi nad oedd digon o ysgolion yn olrhain cynnydd dysgwyr mewn rhifedd, hyd yn oed lle'r oedd cymorth ychwanegol ar gyfer rhifedd wedi cael ei ddarparu.¹⁹ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod systemau olrhain ysgolion yn bwysig er mwyn sicrhau bod dysgu blaenorol yn cael ei atgyfnerthu ac er mwyn osgoi ailadrodd diangen.²⁰ Dywedodd hefyd y byddai dealltwriaeth glir ar bob lefel o gryfderau a gwendidau pob disgybl yn cynorthwyo athrawon i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu'r sgiliau hynny. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghyfnod Allweddol 4, lle nad oedd cynnydd rhifedd dysgwyr yn cael ei olrhain ar hyn o bryd, hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd disgyblion unigol wedi cael cefnogaeth yn flaenorol mewn Cyfnodau Allweddol cynharach. Roedd hyn yn golygu nad oedd cefnogaeth yn cael ei darparu bob amser i ddisgyblion a allai fod yn cael anhawster.²¹

¹⁷ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

¹⁸ Ibid

¹⁹ Estyn, *Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed*, Gorffennaf 2011

²⁰ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

²¹ Ibid

17. Er bod cynllunio i gefnogi dysgwyr yn y cyfnod pontio rhwng Cyfnodau Allweddol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd angen canolbwyntio mwy eto ar rannu gwybodaeth o safon ddigon uchel rhwng ysgolion am lefelau rhifedd disgyblion, oherwydd tuedd i ganolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau a gynlluniwyd er mwyn gwella datblygiad mewn mathemateg.²²

Argymhelliad: Dylai awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion rannu gwybodaeth am lefelau rhifedd disgyblion yn effeithiol yn ystod y cyfnod pontio rhwng Cyfnodau Allweddol a sicrhau bod cefnogaeth barhaus yn cael ei darparu os oes angen.

Y Fframwaith Sgiliau

18. Canfu adroddiad cylch gwaith yr Arolygydd ar *Y Fframwaith Sgiliau yn ystod Cyfnod Allweddol 2* mai ychydig iawn o ysgolion oedd yn defnyddio'r Fframwaith Sgiliau i gynllunio eu cwricwla neu i nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau disgyblion.²³ Yn ei hymateb i adroddiad yr Arolygydd, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried y ffordd orau o weithio gydag ysgolion er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd, ac y byddai'n cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol newydd ar gyfer dysgwyr 5 i 14 oed.

19. Clywodd y Pwyllgor fod gan y Fframwaith newydd, ym marn yr Arolygydd, y potensial i ddarparu strwythur i ysgolion er mwyn cynllunio datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.²⁴ Fodd bynnag, os oedd y Fframwaith yn mynd i gyflawni'r potensial hwnnw, byddai angen iddo gael ei gynhyrchu ar y cyd â chanllawiau i athrawon, enghreifftiau o lefelau cyrhaeddiad i gefnogi dealltwriaeth athrawon o ddisgwyliadau, a chanllawiau i ysgolion ar gynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod gofynion Gorchmynion Pwnc yn cyfateb i'r Fframwaith.²⁵

Argymhelliad: Dylai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol statudol newydd gynnwys canllawiau ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion ar sicrhau bod addysgu sgiliau

²² Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

²³ Estyn, *Y Fframwaith Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 2*, Gorffennaf 2011

²⁴ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

²⁵ Ibid

llythrennedd a rhifedd, a chyfleoedd i'w hymarfer, yn cael ei ymgorffori ar draws y cwricwlwm ac ym mhob Cyfnod Allweddol, a dylai hwyluso rhannu arfer gorau o ran ymgorffori llythrennedd a rhifedd.

Cymraeg fel ail iaith

Safonau

20. Mewn llythyr i'r Pwyllgor, dywedodd yr Arolygydd fod y safon a ddisgwylid gan ddisgyblion a oedd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn cael ei nodi yng Ngorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond bod yr amrywiant yng nghyd-destunau a chefnidroedd ieithyddol ysgolion a disgyblion unigol yn golygu mai'r unig ddisgwyliad rhesymol oedd bod disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol ac yn hyderus mewn ystod gynyddol o sefyllfaoedd llai strwythuredig.²⁶ Roedd hyn yn cefnogi ei thystiolaeth lafar, pan ddywedodd wrth y Pwyllgor na ellid disgwyl i'r cwrs byr TGAU Cymraeg fel Ail iaith gynhyrchu plant dwyieithog. Roedd ganddi amheuan hefyd a ellid sicrhau dwyieithrwydd drwy'r cwrs TGAU llawn, a dywedodd wrth y Pwyllgor mai dim ond plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd yn debygol o fod yn gwbl ddwyieithog pan fyddent yn gadael yr ysgol.²⁷

21. Roedd yr *Adroddiad Blynyddol* yn nodi bod tua hanner y disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn 2010-11 yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg fel ail iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a bod dau o bob tri disgybl Cyfnod Allweddol 3 yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Er bod hyn yn well na chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol, roedd y safonau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn dal yn is nag ar gyfer pob pwnc arall. Roedd y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched hefyd yn fwy nag ar gyfer pynciau eraill.²⁸ Sylwodd y Pwyllgor fod gostyngiad yn nifer y disgyblion a oedd yn dilyn y cwrs llawn TGAU Cymraeg fel Ail iaith, a thuedd gyfatebol ar i lawr yn nifer y disgyblion a oedd yn dilyn unrhyw gwrs a oedd yn arwain at gymwysterau Cyfnod Allweddol 4 yn y Gymraeg.²⁹

²⁶ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11*, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

²⁷ Cofnod y Trafodion [para 152], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

²⁸ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

²⁹ Cofnod y Trafodion [para 152], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

22. Ym marn Estyn, un o'r ffactorau a oedd yn cyfrannu tuag at hyn oedd prinder cyfleoedd i ddisgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg i ddefnyddio a gwella eu Cymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg ffurfiol. Dan y fframwaith arolygu newydd, roedd profiadau cyfrwng Cymraeg disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu harolygu yn awr. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, siaradodd yr Arolygydd am yr angen i arweinwyr ysgolion wneud mwy i ymgorffori'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, er enghraifft yn y gwasanaeth boreol, mewn gweithgareddau allgwricwlaidd, ac fel rhan o weithgareddau mewn pynciau eraill, er mwyn gwella ymdeimlad plant o fod yn rhan o gymdeithas ddwyieithog.³⁰

23. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod Estyn wedi nodi nifer o broblemau yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith, gan gynnwys y canlynol:

“limited evidence of innovative approaches in relation to provision and teaching [...] Opportunities for pupils to use Welsh orally beyond their Welsh lessons are limited, especially in secondary schools. Even in communities where there are Welsh speakers, schools do not provide pupils with planned opportunities to engage with them and to practice using Welsh.”³¹

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg ffurfiol.

24. Nododd y Pwyllgor fod llwyddiant addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion yn amrywio o'r naill ysgol i'r llall. Fodd bynnag, roedd yn bryderus i glywed bod hyn yn rhannol oherwydd anawsterau dod o hyd i athrawon Cymraeg fel ail iaith a oedd yn hyfedr ac yn barod, neu a oedd â digon o arbenigedd yn yr iaith.³² Er mwyn cynyddu hyder a

³⁰ Cofnod y Trafodion [para 154], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

³¹ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

³² Cofnod y Trafodion [para 153], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

gwybodaeth athrawon, dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod angen mwy o anogaeth i gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygiad proffesiynol i ddefnyddio ac addysgu'r Gymraeg. Roedd hyn yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Menter a Dysgu'r Trydydd Cynulliad y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu "ymchwil i'r camau a gymerir gan ysgolion i annog athrawon i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg".³³ Ymatebodd Llywodraeth Cymru'n gadarnhaol i'r argymhelliad a thynnodd sylw at nifer o gynlluniau a oedd wedi cael eu cyflwyno neu a oedd yn cael eu treialu er mwyn lleihau'r rhwystrau a oedd yn atal athrawon a staff eraill mewn ysgolion rhag cymryd rhan.³⁴

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion er mwyn dal i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, ac annog athrawon i fanteisio arnynt, er mwyn cynyddu hyder wrth ddefnyddio ac addysgu Cymraeg.

Anghenion dysgwyr unigol

Y gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched

25. Roedd yr *Adroddiad Blynyddol* yn dangos bod merched yn dal i wneud yn well na bechgyn ym mhob Cyfnod Allweddol. Yn 2010-11, roedd y bwlch rhwng bechgyn a merched a oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc craidd o gwmpas wyth pwynt canran ar gyfer plant saith ac 11 oed. Roedd y bwlch hwn yn cynyddu i fwy na 10 pwynt canran ar gyfer pobl ifanc 14 oed.³⁵ Clywodd y Pwyllgor gan yr Arolygydd fod hyn yn adlewyrchiad o batrymau rhyngwladol, ac nad yw'n broblem unigryw i Gymru.³⁶

26. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod astudiaethau wedi dangos bod cynlluniau a oedd yn llwyddo i fynd i'r afael â thangyflawniad bechgyn yn tueddu hefyd i wella cyflawniad merched. O ganlyniad, roedd y ddau ryw'n cyflawni'n well nag o'r blaen, ond roedd y bwlch rhyngddynt yn parhau.³⁷

27. Dywedodd Meilyr Rowlands, un o Gyfarwyddwyr Strategol Estyn, wrth y Pwyllgor mai'r cynlluniau mwyaf effeithiol ar gyfer gwella

³³ Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Dysgu ac Addysgu Cymraeg fel Ail Iaith*, Medi 2010

³⁴ Llywodraeth Cymru, *Ymateb Ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i Dysgu ac Addysgu Cymraeg fel Ail Iaith*, Tachwedd 2010

³⁵ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

³⁶ Cofnod y Trafodion [para 40], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

³⁷ Ibid [para 43]

cyflawniad bechgyn at ei gilydd oedd y rhai hynny a oedd yn canolbwyntio ar lwybrau dysgu unigoleddig er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol pob plentyn.³⁸ Roedd hyn yn gyson â barn y Pwyllgor bod ymchwil wedi dangos, yn gyffredinol, bod bechgyn yn ymateb yn dda i amgylchedd dysgu mwy gweithredol, fel yr un sydd ar gael drwy'r Cyfnod Sylfaen, ond nad oedd diben gorgyffredinolli ynglŷn â gwahanol ddulliau ar gyfer bechgyn a merched, na chyfuno cyflyru cymdeithasol â gwahaniaethau a allai fod yn rhai cynhenid.³⁹ Yn hytrach, credai'r Pwyllgor ei bod yn fwy effeithiol canolbwyntio ar anghenion penodol plant unigol, yn enwedig lle'r oedd anghenion addysgol arbennig, ffactorau cymdeithasol-economaidd, neu dangyflawniad mewn sgiliau sylfaenol.

Disgyblion mwy galluog a thalentog

28. Clywodd y Pwyllgor fod Estyn wedi darganfod bod ysgolion uwchradd yn tueddu i fod yn well am gefnogi plant is eu gallu yn hytrach na'r rhai mwy galluog.⁴⁰ Yn yr ysgolion gorau, lle'r oedd dulliau dysgu unigoleddig yn cael eu hyrwyddo, roedd y disgyblion mwy galluog neu dalentog "yn elwa'n fawr, yn enwedig o gael rheolaeth dros eu dulliau dysgu a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu".⁴¹ Roedd yr *Adroddiad Blynyddol* yn nodi, ar y cyfan, nad oedd ysgolion cynradd yn gwneud digon i nodi disgyblion mwy galluog a thalentog, nac i'w herio a'u hymestyn. Yn ei adroddiad cylch gwaith ar y mater hwn roedd Estyn yn feirniadol o'r graddau yr oedd ysgolion yn ceisio sicrhau bod disgyblion mwy galluog o gefndiroedd difreintiedig yn cael cefnogaeth i oresgyn y rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag dysgu. Roedd effaith hyn yn waeth oherwydd amrywiant yn y gefnogaeth a ddarperid gan awdurdodau lleol, a diffyg defnydd o ddata i fonitro cynnydd disgyblion mwy galluog a thalentog drwy gydol eu haddysg.⁴²

29. Roedd Estyn wedi gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â sut y gallai ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth yn fwy effeithiol i ddysgwyr mwy galluog a thalentog yn ei adroddiad

³⁸ Cofnod y Trafodion [para 46], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

³⁹ Ibid [para 52-60]

⁴⁰ Ibid [para 106]

⁴¹ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁴² Estyn, *Cefnogi Disgyblion Mwy Abl a Dawnus mewn Ysgolion Cynradd*, Gorffennaf 2011

cylch gwaith dan y teitl *Cefnogi Disgyblion Mwy Abl a Dawnus mewn Ysgolion Cynradd*.⁴³ Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhellion hyn.

Dysgwyr sydd dan anfantais

Y Cyfnod Sylfaen

30. Mae tystiolaeth yn *Adroddiad y Prosiect Darpariaeth Effeithiol Addysg Cyn Ysgol* wedi dangos bod effaith anfantais i'w gweld erbyn y mae'r plentyn yn ddwy oed, ond bod modd cau'r bwlch hwn drwy addysg feithrin wedi ei hintegreiddio'n briodol.⁴⁴ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor ei bod yn meddwl bod rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru⁴⁵ a'r Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol, drwy drwytho plant sydd dan anfantais yng ngwerthoedd, ethos ac uchelgais addysg, a thrwy ymgorffori llythrennedd sylfaenol yn gynnar er mwyn sicrhau nad yw plant yn mynd ar ei hôl hi. Yn fwyaf arbennig, roedd y Cyfnod Sylfaen yn helpu i godi lefelau hyder, annibyniaeth a gwytnwch plant, beth bynnag eu doniau a'u galluoedd.⁴⁶

Ymgysylltu â'r gymuned

31. Mewn adroddiad cylch gwaith yn 2011, edrychodd Estyn ar ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi ac anfantais, gan ganolbwyntio'n fwyaf arbennig ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth ac addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Canfu'r adroddiad y gallai ysgolion weithio'n effeithiol gyda'r gymuned er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau anfantais ddiwylliannol a diffyg dyhead, ond nad oedd llawer o hyfforddiant ar gael i arweinwyr ysgolion i gefnogi hyn, na llawer o rannu'r arferion gorau. Nid oedd awdurdodau lleol ychwaith yn gwneud digon i gefnogi ysgolion yn ymarferol i weithio gyda'u cymunedau neu eu gwasanaethau lleol er mwyn mynd i'r afael ag anfantais, ac mewn gormod o achosion roedd gwahanol wasanaethau'n defnyddio gwahanol systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr dan anfantais. Nid oedd llawer o rannu gwybodaeth gydag ysgolion ac ar draws gwasanaethau ychwaith.⁴⁷

⁴³ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁴⁴ Sefydliad Addysg, Prosiect EPPE, *Effective Pre-School Education*, 2004

⁴⁵ Nid yw'r cyfrifoldeb am arolygu nac arfarnu'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhan o gylch gwaith Estyn.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion [para 149], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁴⁷ Estyn, *Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion*, Gorffennaf 2011

32. Gall ymgysylltu â'r gymuned gael effaith gadarnhaol ar addysg dysgwyr dan anfantais. Er enghraifft, gall darpariaeth helaeth y tu allan i oriau ysgol gynyddu'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr dan anfantais yn elwa ar ystod ehangach o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill. Gall ysgolion hefyd fynd â dysgwyr allan i'r gymuned, neu wahodd cynrychiolwyr o'r ardal leol i'r ysgol i gyfrannu at brofiadau dysgu.⁴⁸

33. Mae llawer o ysgolion yn gweld eu hunain fel ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ond mae'n golygu rhywbeth gwahanol i wahanol ysgolion. Ceir enghreifftiau o arferion da mewn ardaloedd difreintiedig lle mae ysgolion wedi nodi heriau lleol ac wedi gweithio gyda'r gymuned, ond nid oedd digon o ysgolion yn gallu rhoi tystiolaeth i ddangos sut yr oedd cynlluniau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad.⁴⁹ Yn y meysydd ymarfer da roedd dealltwriaeth rhwng arweinwyr a rheolwyr ysgolion o'r cyswllt rhwng lles a safonau, ac o'r angen i weithio gyda chymunedau a gwasanaethau lleol i ymateb i ddiffyg dyhead neu anfanteision penodol er mwyn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus, a thrwy hynny i ddysgu'n effeithiol.⁵⁰

34. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad cylch gwaith Estyn yn tynnu sylw at y cyllid a ddarperid drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn lleihau effaith tlodi ar gyraeddiadau addysgol dysgwyr.⁵¹ I fod yn gymwys ar gyfer y grant, roedd yn rhaid i ysgolion ganolbwyntio mwy ar y gymuned, a dangos sut yr oeddent yn gwella addysg a lles dysgwyr dan anfantais drwy gydnabod anghenion penodol cymunedau lleol a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ynddynt. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gael i helpu disgyblion o gefndiroedd dan anfantais i gyflawni eu potensial a chynyddu eu cyfraniad i'r gymdeithas ac i'r economi. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2012 y byddai'n paratoi canllawiau i ysgolion ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r grant hwn.⁵²

⁴⁸ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁴⁹ Ibid

⁵⁰ Ibid

⁵¹ Llywodraeth Cymru, *Ymateb i Adroddiad Estyn ar Fynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion*, Gorffennaf 2011

⁵² Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2012, Y Cyfarfod Llawn

35. Er hyn, roedd ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyrhaeddiad academaidd yn dangos bod bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid nad oeddent yn gymwys ym mhob Cyfnod Allweddol ac ym mhob mesurydd perfformiad, sy'n dangos bod angen gwneud mwy yn y maes hwn.⁵³

Ymgysylltu â rhieni

36. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod cysylltiad agos rhwng y cartref a'r ysgol yn cael effaith fawr ar les dysgwyr.⁵⁴ Fodd bynnag, canfu adroddiad cylch gwaith Estyn, dan y teitl *Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion*, fod y rhan fwyaf o ysgolion yn dweud mai ymgysylltu â rhieni oedd yr her fwyaf wrth fynd i'r afael â thangyflawniad dysgwyr sydd o dan anfantais.⁵⁵ Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn ymwybodol o'r ystod o broblemau yr oedd disgyblion a'u teuluoedd yn eu hwynebu, ond mae lleiafrif arwyddocaol nad ydynt yn defnyddio ystod ddigon eang o strategaethau i ymgysylltu â rhieni.⁵⁶

37. Lle'r oedd ymgysylltu â rhieni'n gweithio'n llwyddiannus, roedd ysgolion yn defnyddio nifer o ddulliau i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr, ond y dull mwyaf effeithiol oedd gweithio wyneb yn wyneb â hwy er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau yr oedd eu plant yn eu hwynebu. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor hefyd fod yr ysgolion mwyaf effeithiol yn gwerthuso'r effaith yr oedd eu gwaith ymgysylltu, er enghraifft, meithrin dysgu sy'n pontio cenedlaethau, yn ei gael ar ganlyniadau a lles dysgwyr.⁵⁷

Argymhelliad: Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu a rhannu'r arferion gorau ar ymgysylltu â'r gymuned a'r rhieni, yn enwedig yng nghyswllt cefnogi dysgwyr sy'n profi tlodi neu sydd o dan anfantais, a gwerthuso'r effaith ar safonau ac ar ganlyniadau disgyblion.

⁵³ Llywodraeth Cymru, *Bwletin Ystadegol SB 22/2012, Achievement and Entitlement to Free School Meals in Wales, 2011*, Mawrth 2012

⁵⁴ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁵⁵ Estyn, *Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anfantais mewn Ysgolion*, Gorffennaf 2011

⁵⁶ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁵⁷ Ibid

Presenoldeb

38. Roedd yr *Adroddiad Blynyddol* yn dangos nad oedd cyfraddau presenoldeb ysgolion cynradd wedi newid llawer yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion uwchradd ychydig yn well na rhai'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfraddau presenoldeb yn dal yn is nag yn Lloegr, er bod cyfraddau presenoldeb bechgyn yn well na rhai merched.⁵⁸ Mae'n debyg bod yr amrywiad hwn i'w briodoli i batrymau iechyd bechgyn a merched.⁵⁹

39. Dywedodd yr Arolygydd yn ei hadroddiad fod cydberthynas amlwg rhwng cyfradd absenoldeb uchel a safonau isel yn yr ysgolion a arolygid, a bod presenoldeb yn waeth mewn ardaloedd lle'r oedd anfantais gymdeithasol ac economaidd.⁶⁰ Nid oedd y berthynas achosol yn glir, ond yn ôl yr Arolygydd:

“it is most likely that both factors mutually reinforce each other, so that underachievement in school discourages attendance, and poor attendance in turn has a negative effect on standards.”⁶¹

40. Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ran i'w chwarae yn y broses o fynd i'r afael â'r mater hwn, gan wella safonau drwy wella addysgu a chwricwla, a gwella presenoldeb. Clywodd y Pwyllgor fod effeithiolrwydd gwaith i wella presenoldeb yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, a bod effeithiolrwydd ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd yn amrywio hefyd.⁶²

41. Roedd ymarfer da wedi cael ei nodi mewn rhai awdurdodau lleol, er enghraifft gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol, cofrestru electronig mewn ysgolion cynradd, defnydd priodol o bwerau cyfreithiol lle bo angen, a datblygu dogfennau polisi a chanllawiau a

⁵⁸ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁵⁹ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁶⁰ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁶¹ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁶² Ibid

oedd yn nodi cyfrifoldebau'r partneriaid perthnasol yn glir.⁶³ Fodd bynnag, nid oedd yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu gan bawb.

Argymhelliad: Dylai Estyn hwyluso'r broses o rannu'r arferion gorau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion wrth wella cyfraddau presenoldeb.

Plant Sipsiwn a Theithwyr

42. Roedd y Pwyllgor yn gresynu bod ystadegau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 28 Mawrth 2012, yn dangos mai disgyblion Sipsiwn a Theithwyr sydd â'r lefel cyrhaeddiad isaf o'r holl grwpiau dysgwyr ym mhob Cyfnod Allweddol.⁶⁴ Y ddau brif ffactor am hyn, ym marn yr Arolygydd, oedd agwedd at addysg yng nghymunedau'r Sipsiwn a'r Teithwyr, a'r angen i ysgolion wneud mwy i gydnabod diwylliant a gwerthoedd y cymunedau mewn ffyrdd sy'n lleihau stigma, ac achosion o fwlio neu ragfarn.⁶⁵ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod rhai ysgolion yn gyndyn o hyrwyddo diwylliant Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o'r cwricwlwm rhag ofn i hynny arwain at fwy o ragfarn.⁶⁶ Roedd un aelod o'r Pwyllgor wedi cyfarfod grŵp o blant Sipsiwn a Theithwyr yn ddiweddar i siarad am y materion a oedd yn peri pryder iddynt hwy, a dywedodd wrth y Pwyllgor mai hiliaeth oedd eu prif bryder.⁶⁷

43. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod rhai awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar wella'r ffordd yr oeddent yn ymdrin ag anghenion plant Sipsiwn a Theithwyr, ac yn neilltuo llawer o adnoddau ar gyfer hynny. Roedd enghreifftiau o arferion da hefyd, ond nid oedd hyn i'w weld ym mhobman, ac nid oedd wedi cael llawer iawn o effaith eto. Mewn rhai ysgolion yn Abertawe, er enghraifft, roedd disgyblion yn cael eu hannog i ddysgu'n gadarnhaol am ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o agweddau hiliol neu ymddygiad bwlio.⁶⁸

⁶³ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁶⁴ Llywodraeth Cymru, *Bwletin Ystadegol SB 27/2012, Academic Achievement by Pupil Characteristics*, Mawrth 2012

⁶⁵ Cofnod y Trafodion [para 157], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁶⁶ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁶⁷ Cofnod y Trafodion [para 158], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁶⁸ Ibid [para 159]

44. Gellid gwneud mwy hefyd i gydnabod diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ac i gydnabod y rhwystrau y maent yn eu hwynebu,⁶⁹ er enghraifft, drwy roi gwaith cartref i ddisgyblion pan maent yn teithio, drwy gael trefniadau er mwyn canfod barn disgyblion Sipsiwn a Theithwyr, neu drwy weithio gyda disgyblion Sipsiwn a Theithwyr a'u teuluoedd er mwyn cynyddu'r gwerth sy'n cael ei roi i addysg.⁷⁰ Roedd yr Arolygydd yn cydnabod bod y camau a oedd yn cael eu cymryd gan staff awdurdodau lleol yn dechrau gwella cyfraddau presenoldeb mewn rhai achosion, er enghraifft, drwy sefydlu perthynas waith dda gyda rhieni Sipsiwn a Theithwyr, cael aelod dynodedig o'r staff fel pwynt cyswllt, neu gydweithio â gwasanaethau lleol eraill er mwyn ystyried anghenion disgyblion unigol. Er hyn, roedd cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn dal yn isel.⁷¹

45. Roedd y trefniant ariannu presennol ar gyfer addysg Sipsiwn a Theithwyr yn cael effaith negyddol. Mae'r grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail nifer y disgyblion sydd ym mhob ardal awdurdod lleol, sy'n cael ei gyflwyno gan y Cydgysylltydd Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried y ffaith fod anghenion disgyblion oed uwchradd yn fwy.⁷²

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddyrannu'r grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr, ystyried anghenion penodol plant mewn gwahanol Gyfnodau Allweddol, a dylai bwysoli ei ddsbarthiad yn unol â hynny.

⁶⁹ Cofnod y Trafodion [para 157], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁷⁰ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

⁷¹ Ibid

⁷² Ibid

3. Perfformiad a safonau

Disgyblion

Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3

46. Roedd asesiadau o berfformiad disgyblion yn 2010-11 yn dangos gwelliannau o’u cymharu â’r blynyddoedd blaenorol yng nghanran y disgyblion sy’n cyrraedd y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd (Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) ym mhob Cyfnod Allweddol. Gwelwyd cynnydd hefyd yng nghanran y disgyblion ym mhob Cyfnod Allweddol a oedd yn cyrraedd lefelau uwch na’r disgwyl, er bod y niferoedd yn dal yn gymharol isel.⁷³

Cyfnod Allweddol 4

47. Roedd canlyniadau arholiadau allanol ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 wedi gwella yn 2010-11, â chynnydd o bron i bedwar pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol mewn dysgwyr a oedd yn cyrraedd y trothwy lefel 2. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr Arolygydd unwaith eto at bryderon a nodwyd yn ei hadroddiad blynyddol diwethaf fod y bwlch yn ehangu rhwng cyfran y disgyblion a oedd yn cyrraedd y trothwy lefel 2, a’r rhai hynny a oedd hefyd yn cael cymwysterau lefel dau mewn Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf a mathemateg. Y canlyniad oedd bod “gormod o ddysgwyr o hyd nad ydyn nhw’n ennill cymwysterau yn y meysydd blaenoriaeth yma”.⁷⁴

Athrawon

Safonau addysgu a rheoli perfformiad

48. Roedd yr Arolygydd yn cydnabod mai:

“un o nodweddion cyffredin y rhan fwyaf o ysgolion yw’r amrywiaeth o fewn yr ysgol o ran safonau ac ansawdd addysgu a dysgu”; a

⁷³ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁷⁴ Ibid

“hyd yn oed lle mae ysgol wedi cael ei barnu’n ‘dda’ ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu neu’r dysgu’n aml yn wael yn rhai o’r gwersi neu’r adrannau unigol.”⁷⁵

49. Fel rhan o arolygiadau, mae arolygwyr yn arsylwi ar ddsbarthiadau ac yn cymryd rhan mewn “deialog broffesiynol” gydag athrawon. Mae’r arolygwyr wedi canfod bod hyn yn annog hunanwerthuso, ac maent wedi nodi mai’r ffactorau pwysicaf er mwyn gwella safonau addysgu yw agwedd agored, parodrwydd i wella a pheidio â bod yn amddiffynol o’r arferion presennol. Yn fwyaf arbennig, gall gwerthuso gan gymheiriaid – arsylwi a rhannu gwybodaeth rhwng athrawon yn yr un adrannau neu ysgolion – fod yn ffordd effeithiol o ddatblygu gallu a gwella safonau mewn ysgol.⁷⁶ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod Estyn wedi trefnu pedair cynhadledd boblogaidd iawn yn ddiweddar ar ddulliau addysgu llythrennedd mewn ysgolion, gan ddangos y parodrwydd cyffredinol ymhlith athrawon i wella eu dulliau, ac i rannu a dysgu o’r arferion gorau.⁷⁷

50. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod addysgu a gwella yn fwyaf effeithiol, a bod athrawon yn fwyaf ymatebol i arferion newydd, pan oeddent wedi bod yn rhan o’r broses ddatblygu.⁷⁸ Yn ychwanegol at hyn, gallai cymunedau dysgu proffesiynol fod yn ffordd ddefnyddiol o ddatblygu gallu a sgiliau yn y proffesiwn addysgu, a dylai arweinwyr ysgolion annog eu hathrawon i ymwneud â chymunedau o’r fath.⁷⁹

51. Mae gan benaethiaid rôl arwain bwysig i’w chwarae wrth sefydlu a chynnal system reoli perfformiad gadarn, sy’n ystyried hyfedredd ac anghenion yr athrawon mewn ysgol a sut y gellir gwella safonau perfformiad.⁸⁰ Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2012 ei fod yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu canllawiau ar newidiadau i systemau rheoli perfformiad, a’i fod yn bwriadu gwella’r trefniadau cynefino oedd ar gael i athrawon newydd.⁸¹

⁷⁵ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁷⁶ Cofnod y Trafodion [para 83], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁷⁷ Ibid [para 29]

⁷⁸ Ibid [para 84]

⁷⁹ Ibid [para 86]

⁸⁰ Ibid [para 86]

⁸¹ Cofnod y Trafodion, 20 Mawrth 2012, Y Cyfarfod Llawn

Argymhelliad: Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli perfformiad athrawon annog hunanwerthuso a gwerthuso gan gymheiriaid fel trefniadau ar gyfer datblygu gallu athrawon a gwella cysondeb safonau mewn ysgolion.

Cymhwyster Meistr i athrawon sydd newydd gymhwyso

52. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor ei bod yn croesawu'r cymhwyster Meistr newydd ar gyfer athrawon, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2012, a bod y meysydd a oedd yn cael eu cynnwys yn y cwrs yn adlewyrchu'r meysydd yr oedd hi wedi tynnu sylw atynt yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2009-10. Yn fwyaf arbennig, roedd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ymdrin ag addysgu llythrennedd, a sut i ymdrin â phlant mewn dosbarthiadau gallu cymysg a allai fod ag anghenion ychwanegol.⁸²

Arweiniad

53. Mae arweiniad effeithiol yn hanfodol er mwyn gwella safonau a'r ddarpariaeth addysg. Clywodd y Pwyllgor os nad yw'r arweiniad yn gryf, hyd yn oed lle mae athrawon da, na ellir cynnal arferion da o reidrwydd dros gyfnod.⁸³ Er bod enghreifftiau o arweiniad cryf ac effeithiol ar hob haen yn y system addysg, mae canlyniadau arolygiadau wedi dangos bod lle i wella hefyd ym mhob haen.⁸⁴ Roedd ymarfer da'n tueddu i gael ei weld lle'r oedd arweinwyr ysgolion yn barod i gefnogi taith barhaus o welliannau, gan wneud defnydd da o'r data a oedd ar gael iddynt.⁸⁵ Er enghraifft, dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor am y gwelliannau sylweddol mewn perfformiad yr oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi ei sicrhau drwy arweiniad cryf a gweledigaeth a dull gweithredu cyson. Roedd y diwylliant a grëwyd gan arweinydd y Cyngor, yr aelod cabinet arweiniol, y Prif Weithredwr, a'r cyfarwyddwr addysg wedi ymledu i'r ysgolion yn yr awdurdod lleol.⁸⁶

54. Swyddogaeth arweinwyr ysgolion yw pennu disgwyliadau, ethos, systemau ysgol gyfan, a threfniadau rheoli perfformiad.⁸⁷ Mae arweiniad effeithiol yn sicrhau bod arferion da'n cael eu rhannu drwy'r ysgol gyfan, a bod athrawon yn rhannu dealltwriaeth gyffredin. Roedd

⁸² Cofnod y Trafodion [para 90], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁸³ Ibid [para 63]

⁸⁴ Ibid [para 63]

⁸⁵ Ibid [para 75]

⁸⁶ Ibid [para 124]

⁸⁷ Ibid [para 63]

y Pwyllgor yn cytuno gyda'r Arolygydd ei bod yn hanfodol i'r arweinwyr ganolbwyntio ar fusnes craidd ysgolion a darparwyr, sef darparu dysgu ac addysgu o safon uchel.⁸⁸ Mae gwefan Estyn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion da, ond mae angen rhagor o waith er mwyn cynyddu gallu arweinwyr ledled Cymru.⁸⁹

Penaethiaid

55. Mae gan arweinwyr gyfrifoldeb i annog a rhoi esiampl o agwedd agored a pharodrwydd i ddysgu, i edrych ar eu hysgolion mewn ffordd gyfannol, ac i ysgogi gwelliant parhaus ymhlith eu staff, a hynny hefyd drwy ddefnyddio dulliau dysgu a datblygu arloesol fel cyfnewid staff.⁹⁰

56. Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd systemau rheoli perfformiad cadarn, a'r angen i fynd i'r afael â thangyflawni lle'r oedd yn bodoli. Roedd yr Arolygydd yn sicr nad oedd hyn yn galw am arsylwi mewn ystafell ddosbarth o reidrwydd. Yn hytrach, dylid cael system fonitro fwy soffistigedig a fyddai'n edrych ar berfformiad ar draws adrannau ac ar gynnydd grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft, y rhai hynny o gefndiroedd difreintiedig, ac yn caniatáu i benaethiaid nodi lle gallai athrawon neu adrannau rannu gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau.⁹¹

Llywodraethwyr ysgolion

57. Yn ystod arolygiadau, mae arolygwyr Estyn yn cyfarfod llywodraethwyr ysgolion, ac yn ystyried eu dulliau gwneud penderfyniadau, eu defnydd o ddata, a'u swyddogaeth wrth reoli perfformiad. Mewn adroddiad yn 2009, canfu'r Pwyllgor Menter a Dysgu fod diffygion yn y ffordd yr oedd llywodraethwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth addysg mewn bron i un o bob tair ysgol, ac argymhellodd y dylid ystyried hyfforddiant gorfodol.⁹² Yn ei hymateb i'r adroddiad, cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd hyfforddiant er mwyn gwella safonau, ond dywedodd y byddai angen ystyried unrhyw hyfforddiant gorfodol a gyflwynid yn ofalus iawn.⁹³

⁸⁸ Cofnod y Trafodion [para 63], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁸⁹ Ibid [para 69]

⁹⁰ Ibid [para 85]

⁹¹ Ibid [para 92]

⁹² Y Pwyllgor Menter a Dysgu, *Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion*, Gorffennaf 2009

⁹³ Llywodraeth Cymru, *Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am 'Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion' gan Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*, Medi 2009

58. Roedd y Pwyllgor yn gresynu wrth y sefyllfa yn 2010-11:

“yn tua chwarter yr ysgolion, prin ar y cyfan yw gwybodaeth y llywodraethwyr am ddata perfformiad yr ysgol, er eu bod nhw'n gwybod llawer am sawl agwedd ar ei bywyd. Nid ydyn nhw chwaith yn cymharu deilliannau'r ysgol â deilliannau ysgolion tebyg, ac anaml iawn y maen nhw'n herio arweinwyr yr ysgol neu'n eu gwneud yn atebol”.⁹⁴

59. Roedd Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr ysgolion.⁹⁵ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor y gallai hyfforddiant o'r fath gael effaith gadarnhaol ar berfformiad llywodraethwyr, ac y dylai ganolbwyntio ar ddadansoddi data a herio tangyflawni.⁹⁶ Dylai hyn helpu i leddfu rhywfaint ar y broblem y tynnwyd sylw ati yn yr *Adroddiad Blynyddol* sef:

“mewn gormod o achosion, mae'r penaethiaid yn cyflwyno data perfformiad yr ysgol a mathau eraill o wybodaeth mewn ffordd sy'n cuddio unrhyw broblemau.”⁹⁷

60. Mae enghreifftiau o arfer da yng nghyswllt arweiniad llywodraethwyr yng Nghymru, er enghraifft Ysgol Emmanuel yn y Rhyl, lle mae llywodraethwyr unigol yn ysgwyddo cyfrifoldeb portffolio am elfennau neu swyddogaethau penodol yn yr ysgol. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod cydweithio agos rhwng llywodraethwyr ac athrawon yn galluogi ysgol i nodi ac ymateb i'w heriau, a gwneud cynnydd ar daith welliannau barhaus.⁹⁸

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn er mwyn datblygu a darparu hyfforddiant effeithiol i lywodraethwyr ysgolion, sy'n canolbwyntio ar arwain, herio, cefnogi a dadansoddi a defnyddio data.

Awdurdodau addysg lleol

61. Ar 29 Mawrth cyflwynodd yr Arolygydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am arolygiadau awdurdodau lleol Estyn. Ar yr adeg honno, roedd pedwar wedi cael eu hystyried yn 'dda', pedwar yn 'ddigonol' a

⁹⁴ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁹⁵ *Mesur Addysg (Cymru) 2011*

⁹⁶ Cofnod y Trafodion [para 74], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

⁹⁷ Estyn, *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, Ionawr 2012

⁹⁸ Cofnod y Trafodion [para 75], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

thri yn 'annigonol'. Roedd y canlyniadau hyn yn adlewyrchiad o'r modd y mae Estyn yn tynhau ei ddisgwyliadau dan y trefniadau arolygu newydd, ond roedd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i awdurdodau lleol adnabod eu hysgolion yn well, a chanolbwyntio mwy ar y modd yr oedd eu prosesau a'u dulliau'n effeithio ar berfformiad a chanlyniadau disgyblion. Roedd y meysydd allweddol a nodwyd fel rhai yr oedd angen eu gwella'n cynnwys datblygu capasiti athrawon, a sicrhau bod disgwyliadau timau arwain ysgolion yn gyson ac yn gadarn.⁹⁹

62. Dan y trefniadau arolygu newydd, roedd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar hunanwerthuso ac adolygiadau gan gymheiriaid, ac roedd swyddogion llywodraeth leol uwch yn dod i ymwneud â'r broses. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod awdurdodau lleol yn rhoi mwy o flaenoriaeth i addysg, ac roedd yn golygu bod y gwaith o rannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da'n cael ei wneud yn fwy effeithiol.¹⁰⁰ Fodd bynnag, roedd amrywiant yng nghywirdeb hunanwerthusiadau pan oeddent yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau Estyn ei hun. Roedd yn ddiddorol gweld bod rhywfaint o gydberthynas rhwng yr ysgolion hynny a oedd angen arolygiadau dilynol, a'r rhai hynny yr oedd gwerthusiadau eu hawdurdod lleol ohonynt ychydig yn wahanol i werthusiadau Estyn.¹⁰¹

63. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Arolygydd y rôl y dylai aelodau etholedig awdurdodau lleol ei chwarae wrth ddarparu arweiniad ym maes addysg, a nododd fod gwaith awdurdodau lleol o graffu ar addysg yn un maes a oedd wedi cael ei nodi gan Estyn fel maes i'w wella.¹⁰² Dywedodd Simon Brown, un o Gyfarwyddwyr Strategol Estyn, mai eu rôl oedd herio perfformiad, ond nad oedd digon o ddata ar gael mewn rhai achosion iddynt allu gwneud hyn yn effeithiol.¹⁰³ Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru er mwyn darparu hyfforddiant i aelodau gweithredol arweiniol â chyfrifoldeb am addysg ac i gadeiryddion pwyllgorau craffu ar addysg awdurdodau lleol.¹⁰⁴

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu a darparu hyfforddiant i arweinwyr cabinet addysg a chadeiryddion

⁹⁹ Cofnod y Trafodion [para 121-123], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹⁰⁰ Ibid [para 128]

¹⁰¹ Ibid [para 125-127]

¹⁰² Ibid [para 79]

¹⁰³ Ibid [para 79]

¹⁰⁴ Ibid [para 80]

pwylgorau craffu ar addysg, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio data'n effeithiol a chraffu cadarn.

Consortia rhanbarthol

64. I raddau, mae'n bosibl bod y pryderon a amlinellodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor ynglŷn ag adnabyddiaeth awdurdodau lleol o'u hysgolion a'r arweiniad a'r her a ddarperir gan aelodau etholedig yn deillio o'r amrywiant mewn capasiti ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Tynnodd Estyn sylw at y gwahaniaeth ym maint awdurdodau lleol, a dywedodd fod awdurdodau mewn rhai achosion yn gorfod dod â chapasiti i mewn o awdurdodau lleol cyfagos er mwyn mynd i'r afael â'r materion a'r heriau ym maes addysg yn eu hardaloedd. Roedd Estyn yn rhagweld y dylid dechrau mynd i'r afael â'r mater capasiti hwn drwy gyflwyno'r consortia rhanbarthol o Fedi 2012 ymlaen, gan y byddai mwy o sgôp i ddod ag adnoddau at ei gilydd, gan gydnabod perfformiad ysgolion, a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw berfformiad annigonol.¹⁰⁵

65. Amlinellodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor y trefniadau arolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf, pan fyddai Estyn yn cyflawni ei ddyletswydd i arolygu pob awdurdod lleol yng Nghymru cyn pen chwe blynedd, ac am y tair blynedd ddilynol, pan gynhelid arolygiadau'r consortia. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gallai'r amrywiant yng ngweithrediad y consortia cysgodol fod o ganlyniad i'r ffaith fod pob un mewn cyfnod gwahanol yn ei ddatblygiad. Ond pwysleisiodd bod yn rhaid i drefniadau ffurfioli cydweithredu (tra bo'r cyfrifoldebau statudol yn parhau ar lefel awdurdodau lleol) sicrhau bod safonau'n gwella, a pheidio â mentro cyflwyno cymhlethdod diangen neu wanhau prosesau craffu a goruchwyllo.¹⁰⁶

66. Er na fydd y consortia rhanbarthol yn weithredol tan fis Medi 2012, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod ffocws cryf ar arweiniad yn cael ei ddatblygu'n barod ac roedd yn falch iawn o glywed gan yr Arolygydd am waith Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru i sefydlu rhwydwaith ar draws yr awdurdodau er mwyn hwyluso herio a dysgu.¹⁰⁷ Roedd penaethiaid profiadol yn cael eu dynodi'n arweinwyr systemau a fyddai'n cynnig cefnogaeth i ysgolion ar draws y system. Gobeithid y byddai hyn yn gwella dulliau datblygu capasiti mewn

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion [para 128-135], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹⁰⁶ Ibid [para 136-142]

¹⁰⁷ Ibid [para 134]

ysgolion a oedd wedi bod yn fwy cyndyn yn y gorffennol o ymwneud â datblygu arweiniad.¹⁰⁸

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ac Estyn sicrhau bod y gwaith o graffu ar y consortia rhanbarthol yn ddigon cadarn, a bod trefniadau newydd yn gwella safonau a chanlyniadau disgyblion heb gyflwyno cymhlethdod diangen.

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [para 69], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

4. Fframwaith arolygu

Fframwaith arolygu diwygiedig

67. Ym mis Medi 2010, cyflwynodd Estyn fframwaith newydd ar gyfer arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant, a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar hunanwerthuso ac ar y ffordd y mae ysgolion a darparwyr yn darparu addysg sy'n seiliedig ar sgiliau. Prif nodweddion y fframwaith newydd oedd:

- mwy o reolaeth fewnol ac arweiniad mewn arolygiadau;
- meithrin capasiti a chynyddu hygrededd arolygiadau drwy hunanwerthuso ac adolygiadau cadarn gan gymheiriaid;
- holiaduron i ddysgwyr a'u rhieni am eu profiadau o addysg;
- gwneud adroddiadau'n fwy hygyrch a defnyddio termau penodol i ddisgrifio canlyniadau arolygiadau;
- cyfnodau rhybudd byrrach ac ymyriadau cymesur yn seiliedig ar ganlyniadau arolygiadau blaenorol;
- canolbwyntio ar sgiliau yn hytrach na phynciau, ac ar berfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr.¹⁰⁹

68. Cytunasid ar y dechrau y byddai adolygiad canol cylch yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod unrhyw bolisiâu a chynlluniau newydd gan Lywodraeth Cymru'n cael eu hystyried. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod yr adborth cychwynnol am y fframwaith newydd wedi bod yn gadarnhaol a bod ymgysylltiad rhieni â'r broses yn cynyddu.¹¹⁰ Credai fod y fframwaith, drwy ganolbwyntio ar ddatblygu ac ymgorffori sgiliau y gellid eu trosglwyddo, fel llythrennedd a rhifedd ar lefelau sylfaenol ac uwch, ar draws y cwricwlwm, wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgolion.¹¹¹

Cyfnodau rhybudd arolygiadau

69. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfnodau rhybudd byrrach ar gyfer arolygiadau, ac yn cydnabod bod hyn yn adlewyrchu tuedd a fyddai'n parhau. Mewn llythyr at y Cadeirydd, dywedodd yr Arolygydd:

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion [para 10-16], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹¹⁰ Ibid [para 23]

¹¹¹ Ibid [para 29]

“It would be consistent with this trend of reducing the notice period to consult on reducing the notice period further or having spot inspections for the next cycle.”¹¹²

70. Dywedodd yr Arolygydd fod ymgynghoriad annibynnol ar fethodoleg arolygu wedi cael ei gynnal gan CRG Research ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd, gan gynnwys ymgynghoriad cychwynnol ar gyfnodau rhybudd. Mae arolygiadau dirybudd wedi cael eu treialu yn Lloegr gan Ofsted, ac roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Estyn wedi bod mewn cysylltiad agos ag Ofsted er mwyn monitro canlyniadau'r cynllun treialu.

71. Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor fod y cyfyngiadau ar amserlennu arolygiadau (cyfnod rhybudd o 20 diwrnod a'r angen i arolygu pob ysgol cyn pen chwe blynedd o'r arolygiad blaenorol), yn cael eu pennu gan reoliadau.¹¹³ Er mwyn newid y rheoliadau hyn, a'i gwneud yn anos i ysgolion ragweld blwyddyn neu dymor eu harolygiad nesaf, byddai angen cynnal ymgynghoriad. Phe cytunid bod angen newid, byddai angen i Estyn a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd er mwyn nodi newidiadau i'r rheoliadau perthnasol.

Argymhelliad: Dylai Estyn ymgynghori ynglŷn â'r angen i arolygu pob ysgol cyn pen chwe blynedd o'i harolygiad blaenorol ac ynglŷn â'r cyfnod o rybudd sydd ei angen cyn arolygiadau, gyda'r bwriad o alluogi arolygiadau dirybudd lle bo'n briodol.

Lles a diogelu rhag yr haul

72. Roedd y fframwaith arolygu newydd, am y tro cyntaf, yn cynnwys elfen a oedd yn ystyried lles. Ym mis Mawrth 2012 cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i bolisiâu diogelu rhag yr haul mewn ysgolion. Roedd ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gael dogfen a oedd yn amlinellu eu dull o ymdrin ag ystod o ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys yr haul, ac y dylid monitro a rhannu arferion da drwy fecanwaith a oedd yn bodoli'n barod, fel y fframwaith arolygu.¹¹⁴ Dywedodd yr Arolygydd y byddai'n bosibl, fel rhan o'r broses o adolygu a mireinio'r fframwaith, i

¹¹² Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

¹¹³ *Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006*

¹¹⁴ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, *Ymchwiliad i Bolisi ar Amddiffyn Plant rhag yr Haul mewn Ysgolion*, Mai 2012

Estyn gynnwys ystyriaeth o bolisiau i ddiogelu rhag ffactorau amgylcheddol fel rhan o'r fframwaith arolygu lles, ochr yn ochr â materion eraill yn ymwneud â bywyd iach a lles.¹¹⁵

Argymhelliad: Dylai Estyn gynnwys, yn elfen Les ei fframwaith arolygu ac yn ei ganllawiau i'w arolygwyr, yr angen i ystyried a oes gan ysgolion bolisiau ar eu dulliau o ddiogelu rhag ystod o ffactorau amgylcheddol, gan gynnwys yr haul.

Safbwyntiau disgyblion a rhieni

73. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn yr holiaduron a gwblhawyd er mwyn asesu profiadau disgyblion a rhieni o addysg. Er bod y gyfradd ymateb yn amrywio'n fawr ymhlith disgyblion a rhieni ar draws pob haen yn yr ysgol, nid oedd cydberthynas rhwng cyfraddau ymateb ac unrhyw grwpiau penodol.¹¹⁶ Dywedodd yr Arolygydd wrth y Pwyllgor:

“most schools are judged to have an inclusive ethos and arrangements for care and support are generally good. Most pupils are happy and enjoy going to school. Generally pupils feel safe and have good relationships with teachers and other adults. They feel they have greater opportunities to impact on decision-making.”¹¹⁷

74. Yn ogystal, roedd yr ystod ehangach o gyrsiau a oedd ar gael ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn helpu i ymgysylltu â rhai pobl ifanc a fyddai wedi cael eu dadrithio yn y gorffennol, ac o ganlyniad i hyn efallai, ychydig iawn o bobl ifanc oedd yn gadael ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig. Roedd defnydd cynyddol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru i achredu dysgu yn gynnar yng Nghyfnod Allweddol 3 hefyd yn gwella cymhelliant ac yn rhoi ymdeimlad o gyflawni.¹¹⁸

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion [para 116], 29 Mawrth 2012, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

¹¹⁶ Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2010-11, Llythyr oddi wrth Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 20 Ebrill 2012

¹¹⁷ Ibid

¹¹⁸ Ibid

Atodiad A - Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiwn dystiolaeth lafar yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1305>

29 Mawrth 2012

Ann Keane Estyn

Simon Brown Estyn

Meilyr Rowlands Estyn

Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y sefydliad a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor.

Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ielssueDetails.aspx?Ild=3172&Opt=3>

Sefydliad

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)

Cyfeirnod

CYP(4)-11-12 Papur 1